**Tabl 2 – Nodiadau**

## 1. Prif Grwpiau Gwariant Tai a Gwasanaethau Llywodraeth Leol Eraill

Dwyn £1.100 miliwn ymlaen ar gyfer cyfleusterau TG i'r cynllun Cefnogi Pobl.

Trosglwyddo £1.188 miliwn o'r Swyddfa Gartref ar gyfer y Gronfa Datblygu Partneriaeth.

Gostyngiad o £8.700 miliwn o ran Gwariant a Reolir yn Flynyddol sy'n berthnasol i gymhorthdal cyfrifon refeniw tai. Newid technegol yw hwn i adlewyrchu tybiaethau economaidd diwygiedig y Trysorlys.

## 2. Prif Grwpiau Gwariant yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

Dwyn £20.000 miliwn ymlaen ar gyfer rhaglen cynnal a chadw ffyrdd awdurdodau lleol.

## 3. Prif Grwpiau Gwariant Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Ychwanegu £11.287 miliwn o'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer cynlluniau cynnal y farchnad a chynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae hwn yn adlewyrchu'r tybiaethau diweddaraf yn y farchnad a'r tybiaethau diweddaraf ar gyfer y gyfradd gyfnewid.

## 4. Prif Grwpiau Gwariant Addysg a Dysgu Gydol Oes

Trosglwyddo £20.000 miliwn o Gronfa Wrth Gefn y Cynulliad ar gyfer y Gronfa Caledi Myfyrwyr.

Dwyn £18.700 miliwn ymlaen ar gyfer cyflogau athrawon.

Trosglwyddo £0.557 miliwn o'r Adran Addysg a Sgiliau ar gyfer bwrsariaethau myfyrwyr.

## 5. Prif Grwpiau Gwariant Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

Dwyn £10.000 miliwn ymlaen ar gyfer Canolfan y Mileniwm.

Dwyn £0.100 miliwn ymlaen ar gyfer y Comisiwn Brenhinol ar Henebion ar gyfer system TG.

## 6. Prif Grwpiau Gwariant Estyn

Trosglwyddo £0.159 miliwn o'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer archwilio hyfforddiant y Fargen Newydd.

## 7. Prif Grwpiau Gwariant Swyddfa'r Llywydd

Dwyn £1.520 miliwn ymlaen i brynu Adeilad y Pierhead.

## 8. Prif Grwpiau Gwariant Gweinyddiaeth Ganolog

Trosglwyddo £0.436 miliwn o'r Swyddfa Gartref ar gyfer yr uned gostwng troseddu.

Trosglwyddo £0.034 miliwn o'r Swyddfa Gartref ar gyfer gwobrau'r Jiwbilî Aur.

## 9. Cronfa Wrth Gefn

Trosglwyddo £20.000 miliwn i Brif Grŵp Gwariant Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer y Gronfa Caledi Myfyrwyr.

Trosglwyddo £2.356m o Gronfa Wrth Gefn Terfyn Gwariant Adrannol y Trysorlys i gael gwared ar oergelloedd mewn ffordd ddiogel i'r amgylchedd.

Trosglwyddo £1.335 miliwn o'r Adran Diwydiant a Masnach ar gyfer Band Eang.

Trosglwyddo  £0.400 miliwn o'r Adran Ddiwydiant a Masnach ar gyfer gwasanaethau ymgynghorol a rhagoriaeth yn y diwydiant gweithgynhyrchu.

Trosglwyddo £0.360 miliwn o'r Swyddfa Gartref ar gyfer grant arian cyfatebol gweithredol yn y gymuned.

Newid technegol (cynnydd o £0.172 miliwn yn gysylltiedig â'r llysoedd yn gorfodi gwarant) er mwyn i gyllid y Cynulliad gyfateb â chronfa ddata'r Trysorlys.

Dygwyd £3.580 miliwn ymlaen heb ei ddyrannu, er mwyn ymateb i'r galw yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon.